Babell Y Garn Gerlan Madog Nasareth Rehoboth Seion

# Gair o'r Garn

## Cylchlythyr yr Ofalaeth

Seion Rehoboth Nasareth Madog Gerlan Y Garn Babell

Cyfres newydd, rhif 19 Gwanwyn 2012



Hosanna!



Ffordd y Doluriau

Annwyl ffrindiau,

Mae'r "Wythnos Fawr" o fewn cyrraedd unwaith eto. Wythnos y Dioddefaint! Wythnos y gwadu a'r brad. Wythnos yr arestio a'r fflangellu, y llys cangarŵ a'r dienyddiad cyhoeddus. "Ar drothwy gŵyl y Pasg, yr oedd Iesu'n gwybod fod ei awr wedi dod …" (Ioan 13:1). Am hynny, cynlluniodd y Meistr ei daith yn ofalus; trefnodd anghenion ei farchogaeth yn fanwl. Roedd hi'n ymddangos fod popeth o dan ei reolaeth. Iddew yn ei filltir sgwâr ei hun: "aeth rhagddo ar ei ffordd i fyny i Jerwsalem" (Luc 19:28).

Ar yr olwg gyntaf mae'n ymddangos mai ffordd ryfedd iawn oedd hon. Byddai'r mwyafrif o ddilynwyr Iesu wedi disgwyl iddo ddangos ei frenhiniaeth mewn ffordd llawer mwy dramatig a beiddgar. Byddent wedi hoffi'i weld yn rhuthro ar ei ben i Jerwsalem ar gefn ceffyl gwyn er mwyn iddynt allu datgan heb unrhyw amheuaeth fod y Meseia wedi cyrraedd. "Rhowch groeso mawr i arwr y dydd!" *"Hail the conquering hero!"* Ond roedd yr hyn a ddigwyddodd yn bur wahanol. Wrth i Iesu ddod yn agos at Jerwsalem, anfonodd ddau o'i ddisgyblion o'i flaen i gyrchu ebol asen, anifail llwdn nad oedd neb wedi'i farchogaeth o'r blaen. Do, fe gafodd y bwystfil hwnnw y lle mwyaf anrhydeddus ar ddiwrnod yr orymdaith fuddugoliaethus i mewn i Jerwsalem:

> "Ynfydion! – cefais innau f'awr,
>     Un awr felysa' gaed;
> 'Roedd sŵn Hosanna yn fy nghlust,
>     A phalmwydd dan fy nhraed."
>
> G. K. Chesterton
> *cyf.* W. J. Gruffydd

Mynd rhagddo i Jerwsalem wnaeth Iesu, nid fel concwerwr milwrol ond fel gwas dioddefus. Ffordd gostyngeiddrwydd oedd Ffordd y Groes. Brenhiniaeth o wasanaeth a gwyleidd-dra oedd ei frenhiniaeth ef bob amser. Ar y noson y cafodd ei fradychu, dymuniad Iesu oedd bwyta gwledd y Pasg yng nghwmni'i ddisgyblion. Yno maent yn eistedd wrth y bwrdd, eu traed yn flinedig a llychlyd. Dibrisiodd Iesu ei hun gan gymryd agwedd gwas. Plygodd i olchi traed y disgyblion. Wrth wneud hynny, er na ddeallai'r disgyblion beth oedd goblygiadau'r weithred ar y pryd, dangosodd Iesu ei barodrwydd i wasanaethu dynoliaeth drwy'i farwolaeth ar y groes.

Soniodd yr Apostol Paul am y gostyngeiddrwydd hwn: “O’i gael ar ddull dyn, fe’i darostyngodd ei hun, gan fod yn ufudd hyd angau, ie, angau ar groes.” (Philipiaid 2:8) Elfen gwbl angenrheidiol o daith Iesu ar y ffordd i Galfaria oedd ei ufudd-dod a’i waseidd-dra:

Ymlaen, ymlaen, frenhinol Oen,
â gwylaidd rwysg ar lwybrau poen;
’n ôl gwyro pen dan farwol glwy’,
O Grist, mewn grym teyrnasa mwy.

H. H. Milman,
*cyf.* Hywel M. Griffiths

Ein dyletswydd ninnau’r Pasg hwn yw ei hebrwng ef i Jerwsalem a’r groes. Cael ein galw a wnaethom i gyd-gerdded a chyd-ddioddef â Iesu. Meddai’r Apostol Paul eto: “Rwyf am ei adnabod ef, a grym ei atgyfodiad, a chymdeithas ei ddioddefiadau, wrth gael fy nghydffurfio â’i farwolaeth ef, fel y caf i rywfodd, gyrraedd yr atgyfodiad oddi wrth y meirw.” (Philipiaid 3:10, 11) Aberth y groes yw sylfaen profiad y Cristion. Ac er nad yr aberth eithaf mo aberth pawb, fe’n gelwir i gyd i fod yn “aberth byw, sanctaidd” ac yn dystion i aberth ein Gwaredwr.

Rhoddodd Iesu yr esiampl berffaith o hunan-aberth. Cyrhaeddodd ddiben ei anturiaeth ddrud heb syllu’n ôl. Boed i ni ei ddilyn felly ar hyd “ffordd y doluriau” drwy ymddiried ein bywyd yn llwyr i’w ewyllys.

Er mai cwbwl groes i natur
    yw fy llwybyr yn y byd,
ei deithio wnaf, a hynny’n dawel
    yng ngwerthfawr wedd dy ŵyneb-pryd;
wrth godi’r groes ei chyfri’n goron
    mewn gorthrymderau llawen fyw
ffordd yn union, er mor ddyrys,
    i ddinas gyfaneddol yw.

Ann Griffiths

Pasg hapus i chi i gyd.


Yr eiddoch yng Nghrist,

*Wyn Morris (Bugail)*

# Tudalen y Plant

Molwn di, O Arglwydd Dduw, Haleliwia!
Mae yr Iesu eto'n fyw, Haleliwia!

*Eddie Jones*



## Chwilio'r Geiriau.

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| B | C | Y | N | T | A | F | A | C | E |
| Dd | E | A | Ng | I | L | O | Dd | A | Y |
| O | Rh | D | E | S | Ll | Y | B | I | D |
| L | I | S | M | U | N | Th | Y | D | O |
| E | U | R | D | E | A | U | O | O | F |
| Ng | M | Y | W | R | Y | R | E | F | N |
| A | D | A | E | A | R | G | R | Y | N |
| E | Ll | I | U | Ll | W | Y | I | C | O |
| A | O | S | D | Y | Rh | G | A | N | W |
| B | Dd | E | B | E | Ng | A | M | Y | T |

IESU
CYFODI
OFN
LLAWENYDD
ADDOLI
DWEUD

CYNTAF
GWAWRIO
MAIR
BEDD
DAEARGRYN
ANGEL

Dyma rai pethau sy'n gysylltiedig â'r gwanwyn a'r Pasg.
Dyma gyfle i chi helpu'r cyw i ddod allan o'r wy, lliwio cennin Pedr ac wy Pasg, a chwilio am y geiriau yn y chwilair. Dewiswch chi pa dasgau i'w gwneud.

Anfonwch y gwaith at y Gweinidog, drwy law eich athro / athrawes Ysgol Sul os dymunwch, erbyn **30 Ebrill.**
Bydd gwobr o docyn llyfr gwerth £10 i'r ateb cyflawn cyntaf a ddaw allan o'r het.

**Llongyfarchiadau i Ema Jones, Ysgol Sul Capel Seion, enillydd tasg y rhifyn diwethaf.**

***Manylion Cyswllt y Gweinidog:***
***Y Parch Wyn Morris,***
***Berwynfa, Penrhyn-coch,***
***Aberystwyth, SY23 3EW***
***01970 820939***
***berwynfa@btinternet.com***

***Cyhoeddiadau'r Ofalaeth***

6 Ebrill Oedfa Bore'r Groglith
Capel Rehoboth, Taliesin, am 10 o'r gloch
dan arweiniad y Bugail

8 Ebrill Oedfa Gymun y Pasg
Capel y Garn, Bow St, am 10 o'r gloch
dan arweiniad y Bugail


13 Mai Cymanfa Ganu Gogledd Ceredigion
Capel Bethel, Tal-y-bont
Cyfarfod y plant am 10.30 o'r gloch
Cymanfa'r oedolion am 5.30 o'r gloch
Arweinydd: Dr Rhidian Griffiths

28 Mai Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth
Festri'r Garn am 7 o'r gloch

1 Gorffennaf Gŵyl yr ysgol Sul
Morlan, Aberystwyth am 11.15 o'r gloch
Arweinwyr: Owain Edwards ac
Efan Miles Williams
Thema: 'Taith'

Mae'r manylion hefyd i'w gweld ar wefan y Garn:
www.capelygarn.org

***Astudiaeth Feiblaidd yr Ofalaeth***




Dyma'r hyn a ddywed Huw John Hughes yn ei gyflwyniad i'w esboniad, *Cydymaith Stori Duw*:

'Mae gen i ffrindiau sydd wrth eu boddau yn gwneud jig-so. Mi ydw i'n casáu gweld y darnau bach, lliwgar yn brith draphlith ar y bwrdd. A dweud y gwir maen nhw'n codi'r felan arna i ac rwy'n teimlo'n anghyffyrddus a rhwystredig pan fydda i'n edrych arnyn nhw.

'Efallai eich bod chi'n ystyried astudio'r Beibl yn union fel rhoi darnau bach o'r jig-so efo'i gilydd i geisio creu'r cyfanwaith. Bydd ambell ddarn yn ddigon cyfarwydd – hanes y creu, hanes Moses, Dafydd a Goliath, ambell Salm ac adrannau o'r Testament Newydd yn fwy cyfarwydd byth, yn enwedig hanes Iesu yn yr Efengylau ond bod llythyrau Paul a llyfr Datguddiad efallai'n anodd i'w ffitio i'r darlun cyflawn.

'Pwrpas y Pigion yw ceisio creu darlun cyflawn o Stori Duw trwy edrych ar y pinaclau neu'r prif themâu a digwyddiadau. Dychmygwch eich bod yn hedfan mewn awyren ac yn edrych i lawr ar dirwedd ysblennydd ac amrywiol. O glydwch yr awyren gellir gweld y prif leoedd o ddiddordeb ond does dim amser i lanio ac astudio'r lle yn fanwl a thrylwyr.

'Pan fydd y daith ar ben byddwn, gobeithio, wedi gwerthfawrogi'r tirwedd a sut mae'r cyfan wedi ffitio i greu'r darlun cynhwysfawr. Dechreuwn ar astudiaethau'r flwyddyn gyntaf yn yr Hen Destament gan fod ei ddigwyddiadau yn ein paratoi ar gyfer y digwyddiad mwyaf yn hanes y blaned sef bywyd, marwolaeth ac atgyfodiad Iesu.

Yn ystod yr ail flwyddyn byddwn yn canolbwyntio ar ddigwyddiadau'r Testament Newydd a gweld sut mae'r darnau'n ffitio a Stori Duw yn dal i fynd yn ei blaen at ein cyfnod ni a thu hwnt.'

*Mae'r astudiaeth yn cael ei chynnal bob wythnos, am 2 o'r gloch ar brynhawn Mawrth, dan arweiniad y Bugail – croeso cynnes i bawb.*

*‘Da yw moliannu yr Arglwydd’*

## *Cymanfa Ganu Gogledd Ceredigion*

***yng Nghapel Bethel, Tal-y-bont***
***Dydd Sul, 13 Mai***

***Cyfarfod y plant am 10.30 o’r gloch***
***Cymanfa’r oedolion am 5.30 o’r gloch***

***Arweinydd: Dr Rhidian Griffiths, Aberystwyth***

***Trefn y Rihyrsals***
***Bydd pob rihyrsal yn dechrau am 7 o’r gloch***

| | | |
|---|---|---|
| Nos Fercher | 28 Mawrth | Bethel, Aberystwyth |
| Nos Fercher | 4 Ebrill | Y Garn, Bow Street |
| Nos Fercher | 18 Ebrill | Seion, Aberystwyth |
| Nos Fercher | 25 Ebrill | Horeb, Penrhyn-coch |
| Nos Fercher | 2 Mai | Y Morfa, Aberystwyth |
| Nos Fercher | 9 Mai | Bethel, Tal-y-bont |

### *Diolch*

Ar Sul y Pasg ddechrau Ebrill bum mlynedd yn ôl y cynhaliodd y Parch Wyn Morris ei oedfa gyntaf fel gweinidog yr ofalaeth.

Ein braint fel aelodau eglwysi’r ofalaeth yw mynegi ein gwerthfawrogiad o bob agwedd o’i weinidogaeth yn ystod y cyfnod hwn – ac edrychwn ymlaen at barhau i dderbyn ei arweiniad mewn oedfa ac astudiaeth feiblaidd, yn ogystal â’i ofal bugeiliol cyson a charedig.

## *Cymdeithas y Chwiorydd, Capel Rehoboth*



Cafwyd prynhawn diddorol yn llawn hwyl ar 13 Rhagfyr pan groesawyd Emyr Llywelyn i festri Capel Rehoboth, Taliesin. Bu'n sôn am Waldo Williams ac Idwal Jones yn bennaf, gan adrodd nifer o storïau doniol amdanynt. Talwyd y diolchiadau gan John Leeding, un o'r gwŷr dewr a ymunodd â'r chwiorydd am y prynhawn. Ar y diwedd, mwynhawyd paned o de gyda mins peis a chacennau wedi eu paratoi gan Ann Jenkins, Margaret Jones a Tegwen Jones.

Croesawyd Mr John M. Hughes, Dolau, i'r cyfarfod brynhawn Mawrth, 10 Ionawr. Aeth â ni ar daith drwy ogledd Cymru wrth sôn am bobl a mannau diddorol yn siroedd Môn, Arfon, Dinbych, Fflint, Meirionnydd a Threfaldwyn, a diolchwyd iddo am brynhawn difyr gan Myfanwy Rowlands. Roedd y te yng ngofal Eiriona Metcalfe a Carys Briddon.

Y wraig wadd yn y cyfarfod brynhawn Mercher, 8 Chwefror, oedd Nia Wyn Jones, sy'n dysgu yn yr adran gwallt a harddwch yng Ngholeg Meirion Dwyfor, Dolgellau. Bu'n sôn wrthym am ei gwaith yn dysgu myfyrwyr, a hefyd dangosodd beth ellir ei wneud gyda'r gwallt; er enghraifft, drwy ychwanegu *extensions* o bob lliw a llun gellir creu edrychiad newydd mewn chwinciad. Diolchwyd iddi gan Eirlys Jones, ac yna mwynhawyd te wedi ei baratoi gan Mai Leeding a Myfanwy Rowlands.

### *Newyddion Seion*



Ar brynhawn Sul ddiwedd Ionawr, ymwelodd aelodau'r ysgol Sul â Chartref Gofal Tregerddan i gynnal oedfa. Fel arfer croesawyd ni'n gynnes yno a gwerthfawrogwyd yr oedfa gan y trigolion.

Fore Sul, 19 Chwefror, dechreuwyd paratoi'r plant i ddysgu canu emynau'r Gymanfa. Yn dilyn cafwyd anerchiad amserol gan Eirlys Jones yn sôn am y pethau bychain gan ei bod yn fis bach arbennig iawn eleni. Soniodd am werth y darn bach o arian pum ceiniog o'i gymharu â'r darn mwy dwy geiniog; gwirioneddau oesol y diarhebion byrion; rhyfeddod mesur cwta a chryno yr englyn cynganeddol a neges Dewi Sant ar 'wneud y pethau bychain'. Ymunodd pawb mewn trafodaeth fywiog wrth i Eirlys ddirwyn y sgwrs yn ei blaen.

Nos Wener, 2 Mawrth, cynhaliwyd oedfa Ddydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd a baratowyd gan chwiorydd Maleisia ar y thema 'Bydded i Gyfiawnder Lwyddo'. Cymerwyd at y gwahanol rannau gan chwiorydd Seion a Chynon, a thraddodwyd anerchiad byr gan Ina Tudno Williams.

Fore Sul, 11 Mawrth, cynhaliwyd Oedfa Aelodau'r Capel. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan John Gwyn Jones, Magdalen Davies a Maredudd ap Huw. Cafwyd adroddiad diddorol gan Eleri Gwyn Jones am ei thaith ddiweddar i Lesotho yn cynrychioli Ysgol Gynradd Aberteifi, lle mae'n athrawes a than nawdd Dolen Cymru. Roedd wedi paratoi'n fanwl iawn a defnyddiodd doreth o luniau ac arddangosfa liwgar o adnoddau'r wlad. Soniodd am y tlodi a'r angen mawr sydd yno gan bwysleisio hefyd y croeso a dderbyniodd a'r llawenydd a deimlai ymhlith plant yr ysgol o'i chael yno.

Capel Seion

Gwasanaeth Dadorchuddio Cofeb i'r Parchedig D J Evans, Gweinidog Seion 1916–1961

24 Mehefin am 11 o'r gloch

Croeso cynnes i bawb

## *Apel Eglwys Bresbyteraidd Cymru 2012*

Mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru wedi cefnogi Cymorth Cristnogol ers blynyddoedd lawer oherwydd ein bod yn rhannu'r un weledigaeth – rhoi terfyn ar dlodi.




Credwn fod hyn yn alwad arnom gan Iesu, ac yn rhan o waith sefydlu Teyrnas Dduw ar y ddaear. Gelwir arnom i frwydro yn erbyn anghyfartaledd byd-eang ac mae Cymorth Cristnogol yn gweithio gyda phartneriaid lleol i wneud hyn mewn 50 o wledydd ar draws y byd

Un o wledydd tlawd America Ganol neu America Ladin yw Guatemala, ac mae'n ffinio â Mecsico. Mae'r wlad tua phum gwaith yn fwy na Chymru, a'i phoblogaeth bedair gwaith yn fwy na phoblogaeth Cymru; mae poblogaeth Dinas Guatemala ei hun tua'r un maint a phoblogaeth Cymru gyfan.

Mae Guatemala yn wlad brydferth, enwog am ei choffi a'i brethyn. Ond ceir llawer o broblemau yno:

- Mae perygl llifogydd, stormydd a chorwyntoedd yno am chwe mis o'r flwyddyn.
- Mae bron hanner y plant o dan bump oed yn dioddef o ddiffyg maeth affwysol.
- Nid oes gan chwarter y boblogaeth ddigon i'w fwyta.
- Mae tri o bob pump o'r boblogaeth yn byw ar lai nag un ddoler Americanaidd y dydd.
- Mae diffyg gofal meddygol proffesiynol.
- Ceir anghyfartaledd enbyd rhwng y cyfoethog a'r tlawd, gyda'r rhai sy'n byw yng nghefn gwlad yn dioddef fwyaf.
- Ceir hefyd droseddu cyfundrefnol, smyglo cyffuriau a gangiau stryd treisgar.

Nod yr apêl yw gofyn i'n haelodau gyfrannu neu gasglu **£1 y mis,** sef o leiaf gyfanswm o **£12 yr aelod** dros y flwyddyn.

£1 – pris un baned o de

Pris un *Western Mail* ar y Sadwrn

Pris un bar mawr o siocled!

¡VIVA! GUATEMALA

Apêl Eglwys Bresbyteraidd Cymru 2012

Sut fydd ein rhoddion yn helpu pobl Guatemala?

£35 yn talu am fesurydd glaw i alluogi cymuned i fesur yn fanwl pa mor arw yw'r storm

£40 yn talu am gwrs hyfforddi i un person sut i ymateb mewn argyfwng cymunedol

£323 yn talu am system uchelseinio i rybuddio'r gymuned o berygl

*Sut fyddwch chi'n mynd ati i godi'r arian – anfonwch eich syniadau neu adroddiadau /lluniau o weithgareddau i'r Golygyddion i'w cyhoeddi yn y rhifyn nesaf.*

Arglwydd,

â ninnau'n byw mewn gwlad lle y gwelwn stormydd enbyd yn achlysurol yn unig, gweddïwn dros ddiogelwch pobl Guatemala.

â ninnau'n byw mewn gwlad lle mae bwyd maethlon ar silffoedd ein siopau, gweddïwn dros y plant sy'n dioddef o ddiffyg maeth.
Amen




Ffion, Rhydian, a Geraint ac Iestyn – pencampwyr sumo Os Mêts – gyda chriw Coleg y Bala!

**CRISTNOGAETH21 YN Y MORLAN**

Nos Fercher 7.30pm

28 Mawrth: Euros Lewis – Ffydd a'r Celfyddydau

9 Mai: Eric Hall – Ffydd a'r Meddwl Gwyddonol

27 Mehefin: Geraint Huws ac Adrian Morgan – Ffydd yn y Genhedlaeth Iau

Nosweithiau Ysgrythurol
'Geiriau Caled Iesu' – 25 Ebrill a 23 Mai

*Cynhadledd Cristnogaeth21*

Dydd Sadwrn, 23 Mehefin 2012
yng Nghanolfan y Morlan, Aberystwyth
Prif siaradwr: Simon Barrow, Ekklesia

Croeso cynnes i bawb

## Ebrill

*Blaenor y Mis: Mrs Marian B Hughes*

*I gyfarch wrth y drysau: Vernon Jones / Erddyn James*

**1** Sul y Blodau
*Parch Richard Lewis*
*Miss Beti Griffiths*
Oedfa'r bore yn Noddfa; oedfa'r hwyr yn y Garn

4 Cyfarfod Chwiorydd y Garn am 2.30 o'r gloch
'Rhaglen Dorcas' – Meinir Lloyd Jones,
Penrhyndeudraeth, Ysgrifenyddes Adran y Chwiorydd

6 *Oedfa Groglith yr Ofalaeth dan arweiniad y Bugail*
Capel Rehoboth, Taliesin, am 10 o'r gloch

**8** *Oedfa Basg yr Ofalaeth*
Gwasanaeth Cymun dan arweiniad y Bugail
Capel y Garn am 10 o'r gloch

**15** *Bugail*

19 Pwyllgor yr ysgol Sul am 7.30 o'r gloch

**22** *Parch John Roberts*

**29** *Parch Nicholas Bee*



## Mai

*Blaenor y Mis: D Bryn Lloyd*

*I gyfarch wrth y drysau: Alan Wynne Jones / Eddie T Jenkins*

**6** *Parch John Owen*

**13** *Cymanfa Ganu Gogledd Ceredigion*
Capel Bethel, Tal-y-bont
Cyfarfod y plant am 10.30 o'r gloch
Cymanfa'r oedolion am 5.30 o'r gloch
dan arweiniad Dr Rhidian Griffiths

**20** Sul Cymorth Cristnogol
Oedfa'r bore, dan arweiniad y Bugail am **10.30 o'r gloch**
Cinio Bara a Chaws yn dilyn yr oedfa
Oedfa gymun am 5 o'r gloch

**27** *Sul y Pentecost*
*Parch Elfed ap Nefydd Roberts*



Llongyfarchiadau calonnog:

i Shaun Jones ar ennill cadair Eisteddfod Gŵyl Ddewi Ysgol Rhydypennau am gerdd am ei arwr, sef Joe Allen, seren tîm pêl-droed Cymru ac Abertawe,

ac i Teleri Morgan ar ei dyluniad buddugol ar gyfer y gadair (a luniwyd gan Carwyn Lloyd Jones).

## Mehefin

*Blaenor y Mis: Dewi G Hughes*

*I gyfarch wrth y drysau: D. Bryn Lloyd / D. Elystan-Morgan*

**3** *Parch Richard Lewis*
*Mr Raymond Davies*
Oedfa’r bore yn Noddfa; oedfa’r hwyr yn y Garn

**10** *Parch Edwin Hughes*

**17** *Bugail*
Cymun yn oedfa’r bore
Oedfa’r hwyr ym Methlehem, Llandre

**24** *Parch Ddr John Tudno Williams*

***Ail-lansio beibl.net***

Dydd Gŵyl Dewi lansiwyd gwefan **beibl.net** ar ei newydd wedd. Yn ogystal â’r Testament Newydd i gyd mewn iaith lafar, syml, mae’r wefan bellach yn cynnwys cyfieithiad newydd o rannau helaeth o’r Hen Destament. Mae nifer o nodweddion eraill hefyd wedi’u hychwanegu at y wefan: podlediadau, adnoddau newydd i eglwysi ac ysgolion, ac adran arbennig i ddefnyddwyr unigol – fymeibl.net

## *Stondin lyfrau*

Cofiwch am y stondin yn y Festri bellaf – dewis helaeth ac amrywiol o lyfrau o bob math, yn Gymraeg a Saesneg, o lyfrau i'r plant lleiaf i nofelau ysgafn, hunangofiannau a chyfrolau crefyddol. Mae bargeinion i'w cael – rhai'n llyfrau a gyhoeddwyd yn ddiweddar, mewn cyflwr bron fel newydd.




Mae'r pris wedi'i nodi ar bob llyfr. Rhowch yr arian yn y blwch (sef y tedi arian!) a bydd unrhyw elw'n cael ei ddefnyddio i gefnogi gwaith elusennol y Grŵp Help Llaw.

## *Grŵp Help Llaw*

Yn ystod yr wythnosau nesaf, ein bwriad yw cefnogi'r elusen BanglaCymru. Nod yr elusen yw cynnig ac ariannu llawdriniaeth gwefus / taflod hollt i dlodion Bangladesh ac yn sgil hynny gyfle iddynt gael bywyd newydd a'u derbyn yn eu cymunedau.

Dywed Wil Morus Jones, sylfaenydd a chadeirydd yr elusen, 'Bangladesh yw un o'r gwledydd tlotaf yn y byd. Mae 85% yn byw dan lefel tlodi gydnabyddedig. Mae mwy o blant yn cael eu geni gyda thaflod a gwefus hollt yn y rhan yma o'r byd nag unrhyw ran arall. Mae mwyafrif y plant sy'n dioddef o'r cyflwr hwn yn cael eu gadael heb eu trin oherwydd diffyg cyllid a darpariaethau meddygol, ac yn dioddef yn enbyd o ganlyniad i hynny. Amcangyfrifir bod hyd at 5,000 o blant y flwyddyn yn cael eu geni gyda'r cyflwr yma.'

Mae BanglaCymru wedi ei chofrestru fel elusen. Bydd pob punt a gesglir yn cael ei rhoi i'r achos. Ni fydd unrhyw arian o'r gronfa yn cael ei wario ar weinyddu ac yn y blaen.

Am ragor o wybodaeth, ewch i: www.banglacymru.org.uk

Gyda diolch am bob cyfraniad

Shân Hayward (828268) — Bethan Jones (611502)

---

**Sasiwn Genhadol y Chwiorydd yn y De**

Capel y Morfa, Aberystwyth

dydd Mercher, 16 Mai am 2 a 5 o'r gloch




Y Trysor
Papur newyddion da
Duw y cwbl a wnaeth, ac yr oedd yn dda iawn.
ARCH



***Ysgol Sul y Garn***

Mae’r tymor hwn wedi bod yn un prysur a chyffrous i blant yr ysgol Sul. Dan arweiniad medrus Mrs Janet Roberts a Mrs Rhian Jones-Steele, maen nhw wedi dechrau dilyn gwerslyfrau newydd Cyngor yr Ysgolion Sul ar y thema ‘Stori Duw’, ac wedi derbyn copi yr un o’r Beibl Gweithgaredd. Rydyn ni hefyd yn falch o weld Megan a Lleucu yn ymuno â’r dosbarth lleiaf.

Datblygiad newydd arall ydi bod ysgolion Sul y Garn a’r Noddfa wedi dod at ei gilydd i gynnal ysgol Sul ar y cyd yn ystod y Suliau pan mae’r oedolion yn cydaddoli. Roedd yn hyfryd gweld nifer dda o blant a’u rhieni’n cefnogi'r cydweithio hwn, ac mae’r plant yn amlwg yn mwynhau cwmni ei gilydd. Gobeithio y bydd yr arbrawf yn parhau ac yn mynd o nerth i nerth. Croeso i unrhyw blentyn ymuno!



Aelodau Cymdeithas Lenyddol y Garn yn mwynhau swper Gŵyl Ddewi yn ysgoldy Bethlehem, Llandre, nos Wener, 16 Mawrth. Yn dilyn y swper, a baratowyd gan aelodau'r pwyllgor, cafwyd cyflwyniad ar y testun 'Lluniau Llachar – gwneud y gorau o'ch camera digidol' gan Iestyn Hughes.



**NODWCH Y DYDDIAD**
**NOS IAU MAI 17eg**

Bydd Archdderwydd Cymru, Jim Parc Nest,
yn agor

LLWYBR LLÊN LLANFIHANGEL GENAU'R GLYN

yng nghoedwig Llandre
am 6.30 o'r gloch

- Mae'r Llwybr yn ddathliad parhaol o draddodiad barddol y fro
- Mae'n unigryw
- Mae'n cynnwys 16 o baneli
- Mae'n gyfle i fwynhau ein diwylliant yn naws arbennig y goedwig
- Mae'r agoriad yn ddigwyddiad o bwys i'r ardal gyfan



## *Evan Richardson*

Yn rhifyn Gwanwyn 2011 bu John Tudno Williams yn manylu ar hanes y 21 cyntaf i gael eu hordeinio'n weinidogion gan y Methodistiaid Calfinaidd yn haf 1811, wyth yn y Bala a 13 yn Llandeilo. Ymhlith yr wyth yn y gogledd yr oedd un o feibion galluog ein hardal ni, Evan Richardson, mab y saer maen Rhisiart Morys Huws a'i wraig, Bryngwyn-bach, a anwyd ym 1759. Dywed R. T. Jenkins fod y Dr Lewis Edwards wedi dweud rywdro fod Evan yn 'ewythr' iddo. Roedd y rhieni am i'w mab fynd i'r offeiriadaeth, a chafodd y llanc addysg ragorol yn ysgol enwog Edward Richard yn Ystrad Meurig. Ond wedi iddo glywed Daniel Rowland yn pregethu denwyd ef at y Methodistiaid, a hynny'n ennyn gwg ei dad nes iddo godi bwyell a'i fygwth yn ei wely. Er bod ei fam wedi achub ei gam, cefnodd Evan ar ei gartref ac agor ysgol yn Llanddewibrefi.

Daeth Evan fwyfwy dan ddylanwad Daniel Rowland ac ar daith i'r gogledd fel 'cyfaill' pregethwr dechreuodd yntau bregethu tua 1781 yn 22 oed. Ymhen blwyddyn fe'i perswadiwyd gan yr enwog Robert Jones, Rhos-lan, i gadw ysgol ym Mrynengan. Llwyddodd y gwaith ond gan na chafodd yr un llwyddiant wedi symud i Bwllheli, aeth i Langybi lle roedd cant yn yr ysgol. Yn ôl Goronwy Prys Owen yn *Methodistiaeth Llŷn ac Eifionydd*, 'Cafodd ei droi oddi yno oherwydd iddo fod yn gyfrwng tröedigaeth Jane James a fu unwaith yn hynod gellweirus a diystyrllyd o'r Methodistiaid ... Yn ôl i Frynengan am gyfnod nes y perswadiwyd ef gan Gyfarfod Misol Sir Gaernarfon ym 1787 i symud i Gaernarfon i gadw ysgol.'

Daeth Evan Richardson, Caernarfon, i sylw'r enwad fel athro a phregethwr, a bu ei ysgol yn bwysig iawn yn hanes addysg pregethwyr y Methodistiaid; cyfeirir at ei llwyddiant yn gyson yng nghofiannau gweinidogion. Y ddau enwocaf fu yno oedd John Elias a (Syr) Hugh Owen. Gydag Evan Richardson, i bob pwrpas ymarferol, y cychwyn Methodistiaeth Caernarfon, yn ôl R. T. Jenkins. Cafwyd cryn wrthwynebiad yn y dref i Evan a'i gyfaill John Roberts (tad y Parchg Michael Roberts, Pwllheli) pan aethant yno i bregethu. Ond buont yn ffodus o gael cefnogaeth gweinidog enwog yr Annibynwyr, y Dr George Lewis (un o Dre-lech), diwinydd mwyaf ei gyfnod ac un o'm rhagflaenwyr disglair yn Hen Gapel Llanuwchllyn – yno o 1794 i 1811.

Pregethodd y ddau ifanc ger talcen capel Dr Lewis, ym Mhen-dref, ac o'r cychwyn anodd hwnnw bu cynnydd nes codi capel ym 1793, rhagflaenydd capel Moreia, 1826. Hoffaf y disgrifiad o fab Bryngwyn-bach: 'Yr oedd ei ymadroddion yn fyrion, yn gryno, ac yn hyfryd – yr oedd ei lais yn glir ac yn beraidd – a'i ysbryd yn fywiog ac efengylaidd.'

Teithiodd Evan Richardson yn gyson i sefydlu eglwysi yn siroedd y gogledd yng nghwmni gwenidogion adnabyddus y cyfnod. Yr enwocaf o'u plith oedd Thomas Charles, a gwelir enwau'r ddau gyfaill ymhlith ymddiriedolwyr nifer o gapeli. Byddai'r ddau'n cyd-bregethu wrth agor capeli newydd ac yn ôl D. E. Jenkins, yn ei gofiant tair cyfrol swmpus i Thomas Charles: 'yr oedd gan Charles feddwl uchel ohono'. Cynhwysir llythyr hyfryd Evan at ei gyfaill, a'i derbyniodd yng Nghaer y diwrnod y bu raid iddo gael triniaeth i dorri bawd ei law dde yn dilyn yr ewinrhew a gafodd mewn storm ar y Migneint wrth gyrchu i'w gartref yn y Bala.

Rwy'n troi at *Hanes Methodistiaeth Galfinaidd Cymru, Cyfrol 2, Cynnydd y Corff*, gol. Dr Gomer M. Roberts, cyn gorffen: 'Paham y codwyd y priodoldeb o gael Cyffes Ffydd i'r Corph mor fuan ar ôl marwolaeth Thomas Charles ym 1814? Ni bu Charles erioed o blaid cael Cyffes Ffydd i'r Cyfundeb, a datganwyd hynny yn *Rheolau a Dybenion y Cymdeithasau Neillduol* a fabwysiadwyd yn Sasiwn y Bala ym 1801. "O ran ein *daliadau athrawiaethol*," meddid y pryd hynny, "yr ydym yn cyttuno yn hollol ag Erthyglau egwyddorol Lloegr." Ond yr oedd rhai – a John Elias yn eu plith – â'u bryd ar gael Cyffes Ffydd i'r Corff, a manteisiwyd ar y cyfle yn Sasiwn Llanrwst ymhen deufis ar ôl marw Thomas Charles i wyntyllu'r mater. 'Dadleuai Thomas Jones, Dinbych, fod erthyglau Eglwys Loegr "yn ddigon pendant ac eang, o'u deall yn briodol, i fod yn safon i olygiad y Cyfundeb ar athrawiaethau yr efengyl". Gwrthwynebid y syniad gan eraill hefyd, gwŷr megis John Jones, Edern; Evan Richardson, Caernarfon; ac yn enwedig gan Richard Jones o'r Wern. Ofnai'r brodyr hyn y buasai'r fath Gyffes yn gyfyngach na barn prif ddiwinyddion y Cyfundeb o'r dechreuad, ac yn gyfyngach hefyd "na gwedd ysgrythyrol y gwirionedd" ... ni bu cyfle i ailgodi'r mater yn ystod oes (m. 1820) Thomas Jones', a chafodd John Elias ei ddymuniad, gwaetha'r modd.


Yn ei adolygiad ar gyfrol R. Tudur Jones, *John Elias – Pregethwr a Phendefig* yn *Y Traethodydd*, Gorffennaf 1976, dywed Harri Williams, fy nhad yng nghyfraith: 'Beirniadol iawn, yn wir, ydi Tudur Jones o frwdfrydedd John Elias "tros rwymo'r Corff nid wrth y Beibl cyfan (fel y buasid yn disgwyl) ond wrth Gyffes Ffydd fanwl, o wneuthuriad pwyllgor", ac o'i fethiant i weld "perygl ystyried cyffes ffydd (sy'n waith dynion) fel safon absoliwt cyffelyb i Air Duw yn y Beibl". Ym marn Harri Williams, byddai datblygiad Methodistiaeth wedi bod yn wahanol ac yn iachach pe bai pobl wedi dilyn Thomas Jones o Ddinbych (ac Evan Richardson, Bryngwyn-bach) yn lle dilyn John Elias – sylw allai esgor ar drafodaeth ddiddorol.

*W J Edwards*

Yn y llyfr newydd, gwahanol yma mae rhai o gymeriadau a straeon y Beibl wedi'u cymysgu! Bydd yn rhaid dod o hyd i'r cliwiau a throi'r tudalennau er mwyn cysylltu Noa â'i arch, Dafydd â'i ffon dafl, a rhoi trefn ar rai o hoff straeon eraill y Beibl.

Addasiad Cymraeg o *Mix and Match Bible Stories* ar gyfer plant o 3 i 6 oed.

Pris: £4.99




***Llanw 2012 – 9–13 Ebrill***

Lleoliad: Cei Newydd

Gŵyl sy'n dod â Christnogion led-led Cymru at ei gilydd er mwyn dathlu a dyfnhau ein perthynas gyda'r Duw byw yw Llanw. Fe fydd yna gyfle i gymdeithasu, i ddysgu ac i addoli gyda'n cyd-Gristnogion. Mae'r ŵyl ar gyfer pawb sydd rhwng 9 awr a 900 mlwydd oed; does dim esgus dros beidio dod! Dewch i fwynhau!

*Am ragor o fanylion, anfonwch e-bost at: ymholiadau@llanw.org*

***Swyddogion yr Ofalaeth***

*Cadeirydd*: Mrs Ina Williams, Brynawel, Pant-y-crug, Capel Seion (01970 880489)
*Is-gadeirydd*: Mrs Marian B Hughes, 14 Maes y Garn, Bow St (01970 828662)
*Ysgrifennydd*: John Leeding, Glannant, Taliesin, Machynlleth, SY20 8JH; glannant@googlemail.com (01970 832672)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn **10 Mehefin**:

Mr Dewi G Hughes
Bod Hywel, Bow St
✆01970 828026
dewighughes@lineone.net

Mrs Marian B Hughes
14 Maes y Garn, Bow St
✆01970 828662
marian_hughes@btinternet.com